

## Anne Kelly – Fideo 1

Philip: Dyma arddangosfa Anne Kelly 'Well Travelled'. Mae Anne yn un sydd wedi teithio'n eang, mae ganddi flys crwydro fydd yn mynd â hi i lawer lle gwahanol, ond mae hefyd yn dod o gefndir o bobl sydd wedi symud cyfandiroedd a gwledydd, ac yn y gwaith fe welwch chi lawer o wahanol haenau o atgofion, cyfeiriadau at wahanol gymdeithasau a gwahanol leoedd, eu ffawna'n arbennig eu hadar ymfudol sydd i mi'n hudolus iawn.

Mae Anne wedi dod i Ruthun â'r sioe hon, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd yn teithio wedyn, a chyda dim mwy i'w ddweud, dyma Anne Kelly

Anne: Diolch

Enw'r darn hwn yw 'Taith Anorffenedig: Cwch' a dyma osodiad canol yr arddangosfa. Roedd arnaf i eisiau cwch ar gyfer y gosodiad canol oherwydd fy mod i'n dod o Ganada'n wreiddiol ac mae canws yn rhan fawr o ddiwylliant Canada, maen nhw hefyd yn cynrychioli teithiau ac rwy'n teimlo fod fy nhaith i heb ei gorffen.

Fe gefais i'r panelau ffabrig a welwch chi ar y tu allan yn rhodd a'r paneli papur na allwch eu gweld yn iawn yn nhu mewn y cwch. Citiau brodwaith printiedig yw'r panelau: fe'u rhoddwyd i mi gan fyfyrwr ac fe wnes i eu lamineiddio nhw ynghyd â throsluniau papur sydd ar y tu mewn i wneud darnau/ adrannau o frethyn. Fe wnes i batrwm ar gyfer yr ysgerbwd i orchuddio'r cwch ag o, ac yna ei binio, ei bwytho a'i ludo yn ei le.

Daeth ysgerbwd y cwch hwn oddi wrth deulu yn Swydd Efrog – roedd y plant wedi'i wneud yn yr ysgol tua 40 mlynedd yn ôl, ac roedd yn hongian yn eu garej. Cafodd ei achub gennyf i a'm gŵr, fe aethom ag o adref, ei olchi a'i baentio, ac dyma a welwch chi. Daw oddi wrth ei gilydd mewn dwy adran, ac mae'n eithaf ysgafn.

I mi mae'n cynrychioli teithiau anorffenedig a hefyd gweithgareddau dyddiol. Rwyf wedi rhoi prints bach ar yr ochr ac y mae yna lamp, ffôn a llyfr felly mae'n ymwneud mewn gwirionedd â theithiau bach yn ogystal â theithiau mawr, teithiau o gwmpas y cartref rydyn ni wedi sylwi arnyn nhw'n fwy yn y pandemig, ond hefyd byddwch yn cysylltu ein teithiau y tu allan â theithiau o gartref.

Yn y panel hwn yma gallwch weld, er enghraifft, fod yna ddarn o bwytho celf werin haggael sydd wedi'i ychwanegu ar y top, mae yna hefyd glwtyn bach o esgidiau sy'n cynrychioli teithiau dyddiol. Gallwch weld y pwythau llaw sy'n uno'r panelau â'i gilydd, gallwch weld hefyd y pwythau peiriant cyffredinol sy'n rhywbeth y byddaf yn ei wneud i haenu a laminadu darnau o ffabrig â'i gilydd.

Rwy'n hoff o'r ffordd na fydd lliwiau'n cydweddu, maen nhw i gyd yn fersiynau fymryn yn wahanol o lin a chotwm trwm ond y maen nhw'n eu hategu ei gilydd gan ei fod yn gorchuddio siâp y cwch. Fe ychwanegais i fymryn o lês, a oedd yn lês wedi'i grosio yr holl ffordd rownd, dim ond i orffen yr ymyl ac i orchuddio'r pinnau polstri sy'n ei ddal yn ei le.

.....

## Anne Kelly – Fideo 2

Enw'r darn hwn yw 'Ewropeaid', ac mae'n ddarn cyfansawdd. Yn y canol mae yna fap o Ewrop wedi'i wneud o wahanol elfennau'n dangos darnau pensaernïol yn ogystal â'r dyfroedd. Mae'n ddarn o

gwilt rwyf i wedi'i sgrin-brintio, ei addurno, ei addurnosod ac wedi pwytho darnau arno hefyd darnau wedi'u pwytho â llaw.

Mae'r darn yn wirioneddol symbolaidd o Ewrop fel lle ond hefyd fel syniad, yn enwedig â'r cynnydd presennol mewn gwleidyddiaeth ym Mhrydain gyda Brexit ac ymfudiad, ond mae hefyd yn ddarn teuluol. Mae aelodau fy nheulu agosaf i yn y top a gallwch weld hunanbortread yn y canol. Mae'r gwisgoedd yn gynrychioliadol o aelodau'r teulu sydd ar goll neu atgofion o'r gorffennol, Roedd y rhain yn ffurfio rhan o ddarn arall a wnes i'n seiliedig ar y teulu a hanes y teulu.

Roedd fy nhad yn ffoadur o'r Almaen, ac rydw i'n ymfudwr i'r DU, roedd teulu fy mam yn ymfudwyr i Ganada. Yn awr byddwn yn tueddu i gysylltu teithio â mwynhad a hamdden, ond y mae yna hefyd elfen o deithio nad yw'n beth hapus i bobl. Bydd yn rhaid i bobl symud er mwyn gwaith, am lawer o resymau gwahanol, ac wrth gwrs gyda'r pandemig Covid sydd wedi newid ein canfyddiad o deithio. Mae teithio pellter byr yn ymddangos yn hirach, a phellteroedd hir yn ymddangos yn fyrrach mewn rhyw ffordd od drwy Zoom a'r math yna o gyfathrebu.

Rydw i hefyd wedi cynnwys rhywfaint o ysgrifennu yn y darn hwn, elfennau, geiriau, ymadroddion sy'n ymwneud â hunaniaeth, mewnfudo, teithio ac ystyriaeth.

.....

Anne Kelly – Fideo 3

Dyma ddarn cyfansawdd arall, ac wedi dod o'm gwaith tecstil i ar thema celfyddyd werin. Mae pob un o'r panelau hyn yn wahanol fotifau pren y bywyd, sy'n fotiff cyffredin iawn mewn celfyddyd werin.

Maen nhw i gyd yn seiliedig ar ardaloedd gwahanol a gwahanol rannau o'r byd felly rydw i wedi ceisio defnyddio lliwiau a gweadeddau gwahanol, a phrint ffabrig ym mhob un. Rwy'n meddwl ei fod yn rhoi gwahanol naws neu deimlad i bob adran.

Pan roddais i'r cwbl gyda'i gilydd teimlai fymryn yn ddatgymalog a bron fel pe nad oedd yn ddarn gorffenedig. Felly fe wnes i rywfaint o goed i uno'r motifau â'i gilydd, yr adrannau â'i gilydd a'r darnau eithaf mawr yn rhedeg drwy'r canol ond rwy'n meddwl ei fod yn uno'r darn.

Byddaf yn rhoi llawer o adar yn fy ngwaith ac rwy'n meddwl fod yna rywbeth sy'n ymwneud â natur fyrhoedlog ac ymfudiad adar sydd o ddi-ddordeb gwirioneddol i mi. Mae hefyd wedi'i adlewyrchu yn fy ngwaith i, yn adlewyrchu ac yn cyfuno â'r thema o deithio ac ymfudiad.

Byddai fy mam yn gofyn bob amser pam na wnawn i fyth luniau o adar a wnes i mo hynny erioed â dweud y gwir hyd yn ddiweddarach yn fy ngyrfa. Yna gallwn werthfawrogi'n wirioneddol yr hyn roedd hi'n ceisio ei ddweud, oherwydd mae adar mor amrywiol ac eto y maen nhw ym mhobman. Maen nhw bron yn wrthrychau bob dydd neu'n beth y byddwn yn ei weld mewn lluniau. Rydw i felly wedi ceisio eu defnyddio yn y darn mewn rhannu gwahanol i roi pwyslais ond hefyd i ddod â gwahanol haenau a lefelau'r coed allan.

Yn yr adran hon mae yna barot sy'n ddecad wedi'i frodio ac wedi'i gymryd o ddarn arall o frodwaith happael. Mae yna hefyd wahanol adar, gwahanol liwiau ond roedd y darn hwn, mewn gwirionedd, wedi'i fwriadu i gynrychioli coedwig law drofannol a lliwiau trofannol.

Mae yna hefyd adran o faneg yma y gallwn brin ei gweld ac mae yna brint arni. Rwy'n hoff iawn o gael gwrthrychau hapgael, a darnau o ddillad yn rhan o sail y darn oherwydd ei fod yn rhoi rhywbeth i chi adeiladu arno. Gallwch weld yn aml elfennau o ddillad sydd heb fod yn ddarn cyfan o angenrheidrwydd yma ond mae yna goler dilledyn i mewn yma hefyd. Felly mae yna lawer o wahanol haenau: po fwyaf yr edrychwch chi arno y mwyaf y byddwch yn dechrau gweld pethau bach gwahanol fel tai adar bach a brodwaith a phrintiau adar eraill hefyd.

.....

Anne Kelly – Fideo 4

Cyfes o saith o lyfrau plyg unigol o'r enw 'Park Walk sketchbooks'. Fe wnaethpwyd y rhain yn ystod y pandemig, yn edrych yn wirioneddol ar wahanol fathau o droeon y byddwn i'n mynd arnyh nhw yn fy ardal leol.

Cefais fy ysbrydoli gan fyfyrwr a oedd wedi gwneud tag bach pan oeddwn i'n gwneud fy mhrosiect tagiau teithio ar gyfer y sioe wau a phwytho. Fe wnaeth un tag bach a oedd â drws pob tŷ yr oedd wedi byw ynddo erioed. Yr oedd yn ddarn bach hardd, mor hyfryd fel y penderfynais i fenthylg y syniad hwnnw mewn ffordd ac edrych ar y gwahanol leoedd roeddwn i wedi byw ynddyn nhw fel testun ar gyfer pob llyfr plyg.

Fe fyddaf i wrth fy modd yn gwneud llyfrau plyg ac mae'n ddull y byddaf yn ei ddefnyddio'n helaeth wrth ddysgu lle byddwn yn laminadu papur a ffabrig gyda'i gilydd. Felly mae'r llyfrau plŷg hyn ag elfennau o fapiau, dogfennau, darnau o ffabrig, papur sidan, a chryn lawer o frodwaith symudiad rhydd, felly ffotograff neu bortreadau bach o bobl wedi'u cymryd ar wahanol gyfnodau yn fy nhroeon amrywiol mewn ardaloedd gwahanol y bŵm yn byw ynddyn nhw.

Mae yna lawer o fanylion, ond y mae yna hefyd synnwyr o ddadblygu eto, a'r teithio. Maen nhw'n ddarn naratif, os edrychwch chi'n agos gallwch weld rhywfaint o stori ym mhob un.

O ran cyflwyniad, meddyliais y byddai'n wirioneddol hyfryd gwneud cas gan ddefnyddio hen glawr llyfr. Maen nhw'n hongian o'r casys ond gellir eu datgysylltu a'u plygu y tu mewn. Maen nhw wedi'u gorffen ar y ddwy ochr, felly mae'r ochr ôl â darn main o orchudd mwslin, ac yna wedi'u pwytho â llaw i'w gorffen.

Os edrychwch chi'n agos gallwch weld fod yna lawer o fanylion, mae hwn â rhai hen ddogfennau, stampiau post, tudalennau astudiaethau natur o lyfr, brodwaith symudiad rhydd, wedi'u pwytho â llaw hyd yr ymylon. Hefyd mae yna rywfaint o waith blaenorol yr wyf i wedi'i gyfuno ag o, sy'n rhywbeth y byddaf yn hoff iawn o'i wneud – defnyddio mewn gwirionedd hen ddarnau o waith. Mae yna hen strided o frodwaith yn rhedeg i lawr y canol a hynny, rwy'n meddwl yn ychwanegu ychydig mwy o weadedd hefyd.